Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymateb y Llywodraeth i adroddiad Comisiwn y Gyfraith

*"Expert evidence in criminal proceedings in England and Wales"* (Rhif 325 Com y Gyfraith)

21 Tachwedd 2013

# Cynnwys

Crynodeb ........................................................................................................ 3

Argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ymateb y Llywodraeth .............................. 4

# Crynodeb

1. Wedi'i ysgogi gan y Senedd flaenorol (adroddiad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin dyddiedig 29 Mawrth 2005 *"Forensic science on trial"*), ym Mawrth 2011 cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad *"Expert evidence in criminal proceedings in England and Wales"* (Rhif 325 Comisiwn y Gyfraith)[1]. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn seiliedig i raddau helaeth ar ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ebrill-Gorffennaf 2009 ac ar yr adroddiad *Forensic Science on Trial* a defnyddiodd, fel esiamplau, bedwar achos apêl uchel eu proffil (*Dallagher*[2] – printiau clust; *Clark*[3] *a Cannings*[4] – syndrom marwolaeth sydyn babanod; a *Harris and others*[5] – syndrom baban wedi'i ysgwyd).

2. Yn gryno, dyma argymhellion Comisiwn y Gyfraith:

    a. Cyflwyno prawf derbynioldeb statudol, i'w ddefnyddio mewn achosion priodol, sy'n golygu nad yw barn arbenigol ond yn dderbyniadwy mewn achosion troseddol os yw'n ddigon dibynadwy i gael ei derbyn ("y prawf dibynadwyedd");

    b. Darparu i farnwyr, drwy gyfrwng statud, un rhestr o ffactorau generig i'w helpu i ddefnyddio'r prawf dibynadwyedd;

    c. Codeiddio'r agweddau annadleuol ar y gyfraith bresennol (gyda mân newidiadau), fel y byddai'r holl ofynion derbynioldeb o safbwynt tystiolaeth arbenigol yn cael eu datgan mewn un Ddeddf Seneddol a bod iddynt awdurdod cyfartal.

---

[1] Comisiwn y Gyfraith, *Expert evidence in criminal proceedings in England and Wales*, 21 Mawrth 2011, Comisiwn y Gyfraith Rhif 325 (http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/expert-evidence-in-criminal-trials.htm - cyrchwyd ar 30/10/2012).
[2] *R v. Dallagher* [2002] EWCA Crim 1903
[3] *R v. Clark* [2003] EWCA Crim 1020
[4] *R v. Cannings* [2004] EWCA Crim 1
[5] *R v. Harris and others* [2005] EWCA Crim 1980

3. Mae'r Llywodraeth yn rhannu pryderon Comisiwn y Gyfraith am y problemau y mae defnyddio tystiolaeth arbenigol amhriodol neu annibynadwy yn eu hachosi, a chaiff ei darbwyllo o fanteision gweithredu ar hyn. Mae'n cydnabod gwerth posibl y prawf dibynadwyedd arfaethedig i leihau'r risg o euogfarnau anniogel yn deillio o dystiolaeth arbenigol annibynadwy. Fodd bynnag, nid oes amcangyfrif cadarn i'w gael o faint y broblem y mae angen mynd i'r afael â hi - naill ai o safbwynt nifer yr achosion lle cyflwynir tystiolaeth arbenigol annibynadwy, nac o ran yr effaith a gaiff hyn o safbwynt yr euogfarnau sy'n cael eu dileu'n ddiweddarach. Mae'r asesiad o'r effaith a gyhoeddwyd gydag argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn nodi y byddai defnyddio'r prawf newydd yn golygu gwrandawiadau ychwanegol cyn y treial, gyda'r costau ychwanegol cydredol, ond heb arbedion dibynadwy rhagweladwy digonol i wneud iawn am y costau hynny. Heb sicrwydd am yr arbedion y gellid eu sicrhau i wneud iawn am y costau hyn, yng ngoleuni'r cyfyngiadau presennol ar adnoddau, nid yw'n ymarferol gweithredu'r cynigion yn llawn ar hyn o bryd.

4. Yn hytrach na chreu prawf dibynadwyedd statudol yn awr, bydd y Llywodraeth yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i ystyried diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol er mwyn sicrhau y darperir i farnwyr, ar y dechrau, fwy o wybodaeth am y dystiolaeth arbenigol y bwriedir ei chyflwyno. Os bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo hyn, rydym yn credu y gallai'r cyfryw newidiadau gynyddu'r tebygolrwydd y bydd barnwr y treial a'r parti gwrthwynebus, pryd bynnag y bo hynny'n briodol, yn herio'r dystiolaeth arbenigol.

5. Er y bydd hyn, wrth gwrs, yn syrthio'n brin o'r prawf dibynadwyedd a argymhellir, mae'r Llywodraeth yn ystyried y byddai'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn mynd cryn ffordd i leihau'r risg o euogfarnau anniogel o ganlyniad i dystiolaeth arbenigol annibynadwy neu amhriodol na chaiff ei herio.

## Argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ymateb y Llywodraeth

6. Wedi'u rhestru isod ceir 22 o argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith ac ymateb y Llywodraeth. Nid yw'r argymhellion a'r ymateb ond yn cyfeirio at achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr.

***Prawf dibynadwyedd newydd***

***Argymhelliad 1. "Argymhellwn y dylid cael prawf derbynioldeb statudol a fyddai'n darparu nad yw tystiolaeth barn yr arbenigwr ond yn dderbyniadwy mewn achosion troseddol os yw'n ddigon dibynadwy i gael ei derbyn ("y prawf dibynadwyedd")."***

7. O weithredu'r cynnig hwn, byddai'n gwella rheolau presennol y gyfraith gyffredin, ac o bosibl yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddai tystiolaeth arbenigol annibynadwy yn cael ei diystyru mewn treialon troseddol.

8. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn bryderus ynglŷn â chost gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn llawn. Er bod Asesiad o Effaith Comisiwn y Gyfraith yn amcangyfrif arbedion i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mae'r rhain yn ansicr iawn. Fel y noda Comisiwn y Gyfraith "*mae'n anodd iawn mesur maint y broblem sy'n gysylltiedig â thystiolaeth arbenigol annibynadwy mewn achosion troseddol*. "

9. Yng ngoleuni'r uchod, ni all y Llywodraeth weithredu ar argymhelliad 1 ar hyn o bryd.

***Argymhelliad 2. "Argymhellwn reol a fyddai'n darparu, ar gyfer y prawf dibynadwyedd, os ceir unrhyw amheuaeth am y mater, y dylid trin y dystiolaeth arbenigol, a gyflwynir fel tystiolaeth o ffaith, fel tystiolaeth barn arbenigol."***

***Argymhelliad 3. "Argymhellwn y dylid darparu i farnwyr treialon un rhestr o ffactorau generig i'w helpu i ddefnyddio'r prawf dibynadwyedd ac y dylai'r ffactorau hyn gael eu datgan yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys y prawf."***

10. Am y rhesymau uchod, nid yw'r Llywodraeth mewn sefyllfa i gyflwyno prawf dibynadwyedd statudol ar hyn o bryd.

11. Nid yw'r Llywodraeth, felly, yn bwriadu gweithredu ar argymhellion 2 a 3.

***Argymhelliad 4. "Argymhellwn y dylid rhoi cyfarwyddyd i farnwr y treial roi ystyriaeth i'r ffactorau sy'n berthnasol i'r dystiolaeth barn arbenigol sy'n cael ei hystyried ac unrhyw ffactorau eraill y mae ef neu hi'n credu eu bod yn berthnasol."***

12. Gan nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu ar hyn o bryd, ein nod yw gweithredu'r argymhelliad hwn mewn dwy ffordd: yn gyntaf, drwy wahodd y Coleg Barnwrol i atgyfnerthu'r arweiniad barnwrol presennol (er enghraifft, *"Crown Court Bench Book - Directing the Jury"*) o safbwynt arbenigwyr; yn ail, drwy wahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i ddiwygio Rhan 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol i ddarparu arwydd cadarnach o'r ffactorau y dylai barnwyr treialon eu hystyried wrth asesu tystiolaeth arbenigol.

***Argymhelliad 5. "Argymhellwn:***
***(1) y dylai llysoedd troseddol feddu ar bŵer cyfyngedig i beidio â defnyddio'r prawf dibynadwyedd fel nad oes yn rhaid ei ddefnyddio fel mater o drefn ac yn ddiangen;***
***(2) ond, yn yr un modd, rhaid i'r pŵer i beidio â'i ddefnyddio fod cymaint fel nad yw'r prawf dibynadwyedd ond yn dod yn rhwystr mewn enw rhag cyflwyno tystiolaeth barn arbenigol annibynadwy."***

***Argymhelliad 6. "Argymhellwn ar gyfer ein prawf dibynadwyedd arfaethedig, os defnyddir y prawf, mai'r parti sy'n dymuno cyflwyno'r dystiolaeth barn arbenigol ddylai ysgwyddo'r baich o ddangos ei bod yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn."***

13. Am y rhesymau a nodir uchod, nid yw'r Llywodraeth mewn sefyllfa i gyflwyno prawf dibynadwyedd statudol ar hyn o bryd.

14. Nid yw'r Llywodraeth, felly, yn bwriadu gweithredu ar argymhellion 5 a 6.

***Argymhelliad 7. "Argymhellwn y dylid bod un fframwaith mewn deddfwriaeth sylfaenol i reoli ynglŷn â derbynioldeb yr holl dystiolaeth arbenigol mewn achosion troseddol."***

15. Mae'r arweiniad presennol ar fframwaith y gyfraith gyffredin ar dderbynioldeb tystiolaeth arbenigol mewn achosion troseddol eisoes wedi'i grynhoi gan y llysoedd eu hunain (gweler, er enghraifft, baragraffau 270-273 o *Harris and others*). Mae arweiniad pellach ar dystiolaeth arbenigol i'r llysoedd ar gael ar hyn o bryd yn Rhan 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2012[6] ac yn y *"Crown Court Bench Book – Directing the Jury"*[7].

---

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1726/part/33/made
[7] Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, *Crown Court Bench Book – Directing the Jury*, Mawrth 2010, Pennod 8: Expert Evidence, tt. 148-154 (http://www.judiciary.gov.uk/Resources/JCO/Documents/Training/benchbook_criminal_2010.pdf - cyrchwyd ar 30/10/2012); Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, *Crown Court Bench Book – Directing the Jury – First Supplement*, Hydref 2011, Pennod 8: Expert Evidence, tt. 30-35 (http://www.judiciary.gov.uk/Resources/JCO/Documents/eLetters/CCBB_first_supplement_07

16. Mae arweiniad ar dystiolaeth arbenigol i'r arbenigwyr eu hunain eisoes wedi'i gyflwyno gan, er enghraifft, Gwasanaeth Erlyn y Goron[8], y Corff Rheoleiddio Gwyddor Fforensig[9], y Cyngor Meddygol Cyffredinol[10] a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[11].

17. Yng ngoleuni'r uchod, ni chred y Llywodraeth y ceir dadl ddigon cryf i ddatgan mewn statud y fframwaith presennol ar dderbynioldeb tystiolaeth arbenigol mewn achosion troseddol, ac o'r herwydd nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu ar argymhelliad 7 ar hyn o bryd.

***Codeiddio'r gyfraith gyffredin***

***Argymhelliad 8. "Argymhellwn y dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol ddarparu bod tystiolaeth arbenigol yn dderbyniadwy mewn achosion troseddol dim ond:***

***(1) os yw'r llys yn debygol o fod angen help tyst arbenigol; a***

***(2) os profir o bwyso a mesur y tebygolrwydd fod yr unigolyn sy'n honni arbenigedd yn gymwys i roi'r cyfryw dystiolaeth."***

***Argymhelliad 9. "Argymhellwn hefyd y dylai'r ddeddfwriaeth hon ddarparu nad yw tystiolaeth arbenigol yn dderbyniadwy os ceir risg sylweddol nad yw'r arbenigwr wedi neu na fydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i ddarparu tystiolaeth wrthrychol a diduedd, oni fod y llys er hynny yn fodlon y byddai caniatáu'r dystiolaeth er budd cyfiawnder."***

---

1211.pdf - cyrchwyd ar 30/10/2012); y Barnwr Simon Tonking a'r Barnwr John Wait, *Crown Court Bench Book Companion*, 2012, t. 69 (http://www.judiciary.gov.uk/Resources/JCO/Documents/eLetters/Bench%20Book%20Companion_revised%20complete%20march%202012.pdf – cyrchwyd ar 30/10/2012).

8 Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Guidance booklet for experts*, Mai 2010 (http://www.cps.gov.uk/legal/assets/uploads/files/Guidance_for_Experts_-_2010_edition.pdf - cyrchwyd ar 30/10/2012).

9 Corff Rheoleiddio Gwyddor Fforensig, *Codes of Practice and Conduct for forensic science providers and practitioners in the Criminal Justice System*, Fersiwn 1.0, Rhagfyr 2011 (http://www.homeoffice.gov.uk/publications/agencies-public-bodies/fsr/codes-practice-conduct - cyrchwyd ar 30/10/2012).

10 Cyngor Meddygol Cyffredinol, *Acting as an expert witness – guidance for doctors*, (http://www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/expert_witness_guidance.asp - cyrchwyd ar 30/10/2012).

11 Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, *Expert evidence*, Arweiniad, 13 Ionawr 2011 (http://www.hse.gov.uk/enforce/enforcementguide/investigation/expert-intro.htm - cyrchwyd ar 30/10/2012).

18. Cyn belled â phosibl, gellid cynnwys y newidiadau uchod yn Rhan 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Dan adran 40 o Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, gall barnwr treial eisoes wneud, mewn gwrandawiad cyn-treial, unrhyw ddyfarniad ar dderbynioldeb tystiolaeth (gan gynnwys felly dystiolaeth arbenigol). Bydd y Llywodraeth felly'n gwahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i ystyried sut i gynnwys y newidiadau hyn. Ni fyddai hyn, wrth gwrs, yn darparu pŵer o safbwynt tystiolaeth arbenigol yr amddiffyniad sy'n cyfateb i'r pŵer dan a 78 o Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i beidio â chaniatáu tystiolaeth erlyn pe byddai'n "annheg"ei chynnwys.

***Argymhelliad 10. "Argymhellwn ddiwygio'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol i gynnwys y gofynion ychwanegol canlynol:***
***(1) cyn rhoi tystiolaeth lafar, dylai tyst arbenigol gael ei gyfeirio at ei ddyletswydd gyffredinol i roi tystiolaeth arbenigol sydd***
***(a) yn wrthrychol a diduedd, ac***
***(b) yn ei faes (feysydd) arbenigedd ef neu hi;***
***(2) dylai'r llys ynadon neu farnwr y treial ddyfarnu ar faes (neu feysydd) arbenigol y tyst arbenigol cyn iddo ef neu hi roi tystiolaeth a monitro'r sefyllfa i sicrhau nad yw'n rhoi tystiolaeth arbenigol ar faterion eraill."***

19. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol wedi ystyried a thrafod yr argymhelliad hwn ond ni all weld unrhyw angen ar hyn o bryd am y gofynion ychwanegol a awgrymir, yn absenoldeb deddfwriaeth sylfaenol newydd. Mae'r materion hyn eisoes yn cael sylw fel mater o drefn yn y prif holiadau neu'r croesholiadau ac, yn Llys y Goron, yng nghyfarwyddyd y barnwr i'r rheithgor. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i gadw'r argymhelliad hwn dan sylw rhag ofn y bydd yn ddymunol cynnwys yr ymarfer sefydledig yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol i'r dyfodol.

20. Yng ngoleuni'r uchod, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn briodol gweithredu argymhellion 8, 9 a 10 ar hyn o bryd.

***Y prawf dibynadwyedd***

***Argymhelliad 11. "Argymhellwn ar gyfer achosion troseddol:***
***(1) ddarpariaeth statudol mewn deddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n darparu nad yw tystiolaeth barn arbenigol ond yn dderbyniadwy os yw'n ddigon dibynadwy i gael ei derbyn;***
***(2) darpariaeth a fyddai'n darparu ein prawf craidd fod tystiolaeth barn arbenigol yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn os –***
***(a) oes sail gadarn i'r farn, a***

*(b) bod cryfder y farn yn gyfiawnadwy ac ystyried sail y farn honno;*

*(3) darpariaeth a fyddai'n datgan yr esiamplau canlynol o resymau allweddol (lefel uwch) pam nad yw'r dystiolaeth barn arbenigol yn ddigon dibynadwy i'w derbyn:*

*(a) bod y farn yn seiliedig ar ddamcaniaeth na chraffwyd yn ddigonol arni (gan gynnwys, pryd bynnag y bo hynny'n briodol, arbrofol neu brofion eraill), neu sydd wedi methu â gwrthsefyll craffu;*

*(b) bod y farn yn seiliedig ar dybiaeth na ellir ei chyfiawnhau;*

*(c) bod y farn yn seiliedig ar ddata diffygiol;*

*(d) bod y farn yn dibynnu ar archwiliad, techneg, dull neu broses na wnaed yn briodol, neu nad oedd yn briodol i'w ddefnyddio yn yr achos penodol;*

*(e) bod y farn yn dibynnu ar gasgliad na ddaethpwyd iddo'n briodol.*

*(4) darpariaeth a fyddai'n cyfarwyddo barnwr y treial i ystyried, pryd bynnag y bo hynny'n berthnasol, ffactorau mwy penodol (lefel is) mewn Atodlen i'r Ddeddf ac at unrhyw faterion nas dynodwyd sy'n ymddangos fel eu bod yn berthnasol. "*

*Argymhelliad 12. "Argymhellwn y dylid cyfarwyddo barnwr treial, sy'n gorfod penderfynu a yw'r dystiolaeth barn arbenigol yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn, i ystyried*

*(1) y ffactorau canlynol (cyn belled â'u bod yn ymddangos yn berthnasol):*

*(a) swm a sylwedd y data y mae'r farn arbenigol yn seiliedig arnynt, a dilysrwydd y dulliau o gael gafael arnynt;*

*(b) os yw'r farn arbenigol yn dibynnu ar gasgliad o unrhyw ganfyddiadau, a yw'r farn yn esbonio'n briodol ba mor ddiogel ai peidio yw'r casgliad (boed hynny drwy gyfeirio at bwysigrwydd ystadegol neu mewn termau priodol eraill);*

*(c) os yw barn yr arbenigwr yn dibynnu ar ganlyniadau defnyddio unrhyw ddull (er enghraifft, prawf, mesur neu arolwg), a yw'r farn yn rhoi ystyriaeth briodol i'r materion, megis y graddau cywirdeb neu faint yr ansicrwydd, gan effeithio ar gywirdeb neu ddibynadwyedd y canlyniadau hynny;*

*(d) i ba raddau yr adolygwyd unrhyw ddeunydd y mae'r farn arbenigol yn seiliedig arno gan eraill sydd â'r arbenigedd perthnasol (er enghraifft, mewn cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid), a barn y rheini ar y deunydd hwnnw;*

*(e) i ba raddau y mae'r farn arbenigol yn seiliedig ar ddeunydd sydd y tu allan i faes arbenigedd yr arbenigwr;*

*(f) pa mor gyflawn oedd y wybodaeth a oedd ar gael i'r arbenigwr, ac a wnaeth yr arbenigwr roi ystyriaeth i'r holl wybodaeth arbenigol i ddod i'r farn (gan gynnwys gwybodaeth am gyd-destun unrhyw ffeithiau y mae'r farn yn berthnasol iddynt);*

*(g) a oes amrediad o farn arbenigol ar y mater dan sylw; ac, os oes, lle yn yr amrediad y mae barn yr arbenigwr ac a yw tueddiad yr arbenigwr at y farn a gynigir wedi'i esbonio'n briodol;*
*(h) a oedd dulliau'r arbenigwr yn dilyn ymarfer sefydledig yn y maes; ac, os nad oeddent, a esboniwyd yn briodol y rheswm am y gwyro hwn;*
*(2) ffactorau cymeradwy, os o gwbl, ar gyfer asesu dibynadwyedd y math penodol o dystiolaeth arbenigol sydd dan sylw (cyn belled ag yr ymddangosant yn berthnasol); ac*
*(3) unrhyw ffactorau eraill sy'n ymddangos yn berthnasol."*

*Argymhelliad 13. "Argymhellwn y canlynol ar gyfer achosion troseddol:*
*(1) dylid bod rhagdybiaeth bod tystiolaeth barn yr arbenigwr a gyflwynir i'w derbyn yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn, ond ni fyddai'r rhagdybiaeth yn berthnasol:*
*(a) os yw'n ymddangos i'r llys, yn dilyn her resymedig, nad yw'r dystiolaeth o bosibl yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn, neu*
*(b) os yw'r llys yn dyfarnu'n annibynnol na ddylai'r rhagdybiaeth fod yn weithredol;*
*(2) os nad yw'r rhagdybiaeth yn weithredol mwyach, dylai'r llys gyfarwyddo i wrandawiad gael ei gynnal i bwyso a mesur dibynadwyedd y dystiolaeth, oni ellir delio'n briodol â'r mater heb wrandawiad; a*
*(3) gyda threialon yn Llys y Goron, dylai'r gwrandawiad dibynadwyedd fel arfer gael ei gynnal cyn i'r rheithgor dyngu llw ond, fel eithriad, dylai fod yn bosibl cynnal gwrandawiad yn ystod y treial yn absenoldeb y rheithgor."*

*Argymhelliad 14. "Argymhellwn, os caiff ei herio ar apêl, y dylai dyfarniad barnwr y treial dan y prawf dibynadwyedd gael ei drin gan y llys apeliadol fel ymarfer dyfarniad cyfreithiol yn hytrach na fel ymarfer disgresiwn barnwrol."*

21. Am y rhesymau uchod, nid yw'r Llywodraeth mewn sefyllfa i gyflwyno prawf dibynadwyedd statudol ar hyn o bryd, ac felly ni fydd yn gweithredu ar argymhellion 11, 12, 13 a 14.

*Arbenigwyr a benodir gan y llys*

*Argymhelliad 15. "Argymhellwn y dylid darparu i farnwr Llys y Goron (ar gyfer treial ar dditiad) bŵer statudol i benodi arbenigwr annibynnol i'w gynorthwyo wrth benderfynu a yw'r dystiolaeth barn arbenigol a gyflwynir gan barti yn ddigon dibynadwy i gael ei derbyn."*

*Argymhelliad 16. "Argymhellwn y dylai'r pŵer hwn ganiatáu barnwr Llys y Goron i benodi arbenigwr annibynnol dim ond os yw'n fodlon y byddai gwneud penodiad o'r fath er budd cyfiawnder, gan ystyried*

***(a) pwysigrwydd tebygol y dystiolaeth barn arbenigol yng nghyd-destun yr achos yn ei gyfanrwydd;***
***(b) cymhlethdod y dystiolaeth honno, neu gymhlethdod yr ystyriaeth ynglŷn â'i dibynadwyedd; ac***
***(c) unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill."***

***Argymhelliad 17. "Argymhellwn y dylai'r barnwr wneud ei benodiad o blith rhestr fer o unigolion a baratowyd gan banel o ymarferwyr cyfreithiol annibynnol, dan gadeiryddiaeth Barnwr Cylchdaith, gan adlewyrchu buddiannau'r erlyniad a'r amddiffyniad."***

22. Nodwn fod yr argymhellion hyn wedi'u cymhwyso yn ddefnyddiol gan gydnabyddiaeth y ceid cost sefydlu ynghyd ag angen am gefnogaeth weinyddol barhaus i'r panel penodiadau arfaethedig, a hefyd gan awgrym y byddai ar y Llywodraeth o bosibl eisiau gweld a oedd y pŵer a argymhellir yn angenrheidiol (er enghraifft, drwy fonitro i ba raddau yr oedd pŵer presennol y llys dan y gyfraith gyffredin i alw tyst ffeithiau yn darparu dewis amgen digonol).

23. Mae'r Llywodraeth yn pryderu am effeithlonrwydd y drefn a argymhellir. Gall defnyddio panel dethol annibynnol fod yn broses feichus y byddai'r Llywodraeth yn petruso cyn ei wneud yn orfodol ym mhob achos lle byddai'r materion hyn yn codi. Gallai fod yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion i'r barnwr gael mynediad i "restr faith" sefydlog o arbenigwyr mewn amrywiol feysydd, wedi'i llunio gan broses annibynnol briodol.

24. Yn benodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bryderus iawn am gost sefydlu, cynnal a gweinyddu'r math o system a ragwelir. Yn ogystal â'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r panel dethol, ceid costau parhaus o safbwynt yr amser ychwanegol y byddai'r erlyniad a'r amddiffyniad yn ei dreulio yn ystyried (mewn ymgynghoriad â'u harbenigwyr) ac yn gwneud sylwadau am fwriad y barnwr i benodi arbenigwr, am y dewis arbenigwr, am gyfarwyddiadau i'r arbenigwr ac am dystiolaeth yr arbenigwr, a'r amser a dreulia'r llys yn delio â'r sylwadau hynny. Os bydd y dystiolaeth, ar ôl y ddadl cyn y treial, yn cael ei derbyn, mae'n amheus a fyddai'r holl ymdrech ychwanegol honno'n cwtogi hyd y treial yn sylweddol.

25. Yng ngoleuni'r uchod, nid yw'r Llywodraeth yn derbyn argymhellion 15, 16 a 17.

***Materion gweithdrefnol***

***Argymhelliad 18. "Argymhellwn fod Rhan 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn cael ei diwygio i gynnwys y canlynol:***

***(1) rheol sy'n mynnu bod atodiad yn cael ei roi ynghlwm wrth adroddiad yr arbenigwr, yn datgan –***

***(a) gwybodaeth ddigonol i ddangos y bodlonir y gofynion o safbwynt arbenigedd a diduedddrwydd; ynghyd ag***

***(b) esboniad penodol ar ddibynadwyedd y dystiolaeth barn gyda chyfeiriad at y prawf ac at ffactorau ac esiamplau perthnasol yn ein Bil drafft, wedi'u datgan yn gryno mewn modd a fyddai'n hawdd i farnwr treial ei ddeall, ynghyd â chrynodeb o:***

***(i) achosion eraill (os o gwbl) lle dyfarnwyd bod tystiolaeth barn yr arbenigwr yn dderbyniadwy neu annerbyniadwy ar ôl ymholi'n ddigonol dan y prawf dibynadwyedd; ac o***

***(ii) ddyfarniadau barnwrol eraill ar ôl ymholi'n ddigonol y mae'r arbenigwr yn ymwybodol ohonynt (os o gwbl) ar faterion sy'n sail i dystiolaeth barn yr arbenigwr***

***(2) rheol sy'n mynnu bod adroddiad arbenigwr yn cynnwys –***

***(a) datganiad sy'n esbonio i ba raddau y mae tystiolaeth barn y tyst arbenigol yn seiliedig ar wybodaeth sydd y tu allan i'w faes arbenigedd a/neu ar farn arbenigwyr eraill (a enwir);***

***(b) atodlen sy'n dynodi'r deunydd sylfaen sy'n ategu casgliadau'r tyst arbenigol; a***

***(c) rheol, os bydd parti yn galw ar dyst arbenigol i roi barn resymedig ar debygolrwydd eitem o dystiolaeth dan gynnig a gyflwynir gan y parti hwnnw, rhaid i adroddiad yr arbenigwr hefyd gynnwys, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, farn resymedig ar debygolrwydd yr eitem o dystiolaeth dan un neu ragor o gynigion amgen (gan gynnwys unrhyw gynnig a gyflwynir gan y parti gwrthwynebus);***

***(3) estyniad ar reol 33.4(2) o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol fel, os nad yw'r parti sy'n ceisio cyflwyno tystiolaeth arbenigol yn cydymffurfio â'r gofynion uchod, y byddai'r dystiolaeth yn annerbyniadwy oni bai bod pob parti yn cytuno y dylai gael ei derbyn neu fod y llys yn rhoi caniatâd iddi gael ei derbyn."***

***Argymhelliad 19. "Argymhellwn y dylai'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol fynnu bod y partïon yn datgelu'r materion canlynol wrth y partïon eraill ac wrth y llys cyn y treial:***

***(1) gwybodaeth sy'n berthnasol i ddefnyddio'r profion diduedddrwydd ac arbenigedd;***

***(2) os gofynnir, gwybodaeth sy'n berthnasol i ddefnyddio'r prawf dibynadwyedd (gan gynnwys, yn benodol, y dystiolaeth sy'n sail i farn yr arbenigwr); a***

***(3) gwybodaeth y gallai danseilio'n sylweddol hygrededd yr arbenigwyr y dibynnir arnynt."***

***Argymhelliad 20. "Argymhellwn hefyd, yn unol â'r sefyllfa bresennol dan reol 33.4(2) o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2010, y dylai methiant parti â chydymffurfio â gofynion is-baragraff (1), neu gyda chais am ddatgeliad dan is-baragraff (2), wneud tystiolaeth arbenigol y parti hwnnw yn annerbyniadwy, oni fod y barnwr yn rhoi caniatâd (neu fod pob parti'n cytuno y dylid derbyn y dystiolaeth)."***

26. Bydd y Llywodraeth yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i ystyried gwneud newidiadau priodol i Ran 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol i adlewyrchu'r argymhellion hyn. Bydd hyn, wrth gwrs, yn dibynnu ar bwerau presennol y barnwr i beidio â chynnwys tystiolaeth, yn hytrach nag yn darparu unrhyw bwerau newydd.

***Argymhelliad 21. "Argymhellwn:***

***(1) Diwygio Rhan 33 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol i wneud darpariaeth bendant ar gyfer cyfarfod dan arweiniad y barnwr o arbenigwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol y partion os ceir anghydfod ynglŷn â'r materion arbenigol ac os cred y barnwr y byddai cyfarfod o'r fath o fudd i ddatrys neu liniaru'r anghydfod; ac***

***(2) y cefnogir y pŵer hwn gan ddarpariaeth debyg i'r hyn sydd wedi'i ddatgan yn awr yn rheol 33.6(4) o'r Rheolau."***

27. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol wedi ystyried a thrafod yr argymhelliad hwn ond ni wêl ddim angen ar hyn o bryd i ymestyn y ddarpariaeth bresennol yn y Rheolau ar gyfer trafodaeth rhwng yr arbenigwyr cyn y treial er mwyn cynnwys cyfarfod gyda'r barnwr.

28. Yn unol ag Asesiad o Effaith Comisiwn y Gyfraith, byddai cost net y cyfarfodydd ychwanegol a gynigir yn £6.9m dros ddwy flynedd. Rydym ni'n credu y byddai'n well caniatáu i'r trefniadau presennol ar gyfer trafodaethau gael eu sefydlu'n gadarnach cyn ystyried eu hymestyn fel hyn.

***Argymhelliad 22. "Argymhellwn y dylai'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol ddarparu, ar gyfer treialon ar dditiad (gerbron barnwr a rheithgor), os yw'r barnwr yn penderfynu ar ddiwedd y treial fod achos yr erlyniad yn dibynnu'n llwyr neu'n sylweddol ar dystiolaeth barn arbenigol ddadleuol, y dylai'r barnwr***

***(1) ystyried a ddylid darparu i'r rheithgor rybudd i fod yn ofalus gyda'r dystiolaeth honno; ac***

***(2) os credir bod rhybudd i fod yn ofalus yn briodol, darparu i'r rheithgor rybudd priodol wedi'i deilwrio'n unol â ffeithiau'r achos."***

29. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol wedi ystyried a thrafod yr argymhelliad hwn. Er ei fod yn cymeradwyo rhybuddion o'r fath, nid yw'r Pwyllgor yn meddwl y dylid ychwanegu gofyniad o'r fath at y Rheolau Trefniadaeth Droseddol ar hyn o bryd oherwydd y caiff rhybuddion o'r fath eu rhoi eisoes pryd bynnag y bo hynny'n berthnasol. Gall cynghorydd cyfreithiol neu glerc ynadon hefyd eu rhoi i fainc leyg pryd bynnag y bo hynny'n angenrheidiol. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn gwahodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i gadw'r argymhelliad hwn dan sylw, rhag ofn y bydd yn ddymunol cynnwys yr ymarfer sefydledig yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol i'r dyfodol.

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder